Cofnodion cyfarfod rithiol 15 Mehefin 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Cynog Prys	
Iestyn Harris	Nerys John	
Llŷr Evans	Emyr Gareth	
Eifion Williams	Dafydd Huws	
Lliiwen Griffiths-Williams		
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cadeirydd Iwan Huws. Diolchodd i'r Cyngor am ei ethol fel Cadeirydd am y flwyddyn yn ei absenoldeb. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Casi Roberts.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn gallu bod yn bresennol.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad gwariant mis Mai 2021 i'r Cyngor. Derbyniwyd yr adroddiad.	**Swyddog Ariannol**
4.2	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol fanylion costau'r yswiriant am y flwyddyn, premiwm o £1925.84. Roedd y Cyngor yn fodlon ar y pris a chytunwyd i'w dalu.	**Swyddog Ariannol**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mai 2021 fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Yn codi o'r cofnodion: Dim ymateb wedi bod gan Priffyrdd Gwynedd ar y materion; • Dwr yn arllwys i'r ffordd – y Clerc i Gysylltu • Ffordd ger y Feddygfa – y Clerc i gysylltu • Wal gynnal ar y ffordd i'r hen gei llechi - y Clerc i gysylltu Dim ymateb wedi bod ynglyn a Llwybr Afon Heulyn Cae Ysgol – cytundeb wedi bod gan y Cyngor Sir i wneud gwaith adfer ar y Cae i'w ddatrys am y tro.	**CLERC** **CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Rhif Cais : C21/0520/20/DT Lleoliad: 8 Bryn Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4LY Bwriadl: Estyniad un llawr yn nhu blaen y tŷ. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.2	Cae gwared ar ffonau cyhoeddus – Terfyn Teras, Y Wern a Glan y Mor. – DIM GWRTHWYNEBIAD I CAEL GWARED A TERFYN TERAS A'R WEERN. CADW GLAN Y MÔR.	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Y Clerc i bwyso ar Gyngor Gwynedd i gael ymateb i'r materion sydd dal heb dderbyn sylw.	**CLERC**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	

8.1	Mae torriad cyntaf I'r llwybrau wedi ei wneud a'r anfoneb wedi ei dderbyn gan y Swyddog Ariannol.	**CLERC**
8.2	Ma'r is-bwyllgor angen cyfarfod er mwyn dethol y gwaith o osod y waymarkers. Mae angen cytuno ar leoliadau'r arwyddion. Penderfynwyd byddai'r aelodau yn parhau a'r llwybrau yr oeddynt yn eu harchwilio llynedd. Bydd yr arwyddion yn cael eu gosod gyda dealltwriaeth y tir feddianwyr ond lle mae anawsterau yn bodoli a'r tir feddianwyr bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu i osod yr arwyddion.	**CLERC/IH/GG**
8.3	Bydd yr ail doriad ar y llwybrau yn cael ei wneud diwedd mis Gorffennaf.	
8.4	Derbyniwyd gais gan aelod Anwen Lynne ar gyfer creu llwyn ffrwyth ar ymyl y llwybr sydd yn arwain o'r Lon Las i'r Maes Parcio. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan y Cyngor. Y Clerc i hysbysu'r Cyngor o hyn er mwyn sicrhau nad oeddynt yn torri'r llwyn.	**CLERC**
8.5	Cafwyd wybodaeth gan y Cynghorydd Sir bod Cyngor Gwynedd am osod ffens newydd ar ran o'r Lon Las tu gefn I'r Maes Parcio hyd at yr hen Orsaf.	
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Dim gwybodaeth bellach ynglyn a phrisiau i adfer safle Moria.	
9.2	Mae pris wedi ei dderbyn am y gwaith adfer sydd ei angen i wal y maes Parcio.	**DW**
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Cafwyd gwybodaeth bod yr offer newydd i'w osod yn y Cae Chwarae wythnos yn dilyn Cyfarfod y Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn hysbysu'r Cynghorwyr. Y Clerc i gysylltu ag Elliw i sicrhau roliau Sunrise Playgrounds yn y prosiect. Yn dilyn y cyfarfod misol mae Elliw wedi anfon y diweddara ar y cynllun. Gobeithir cwblhau y gwaith rhwng y 24 a 30 o Fehefin. Gobeithir tynnu lluniau gyda Cadeirydd Y Cyngor ag OBR ar y 30 er mwyn cael cyhoeddusrwydd yn y wasg.	**IW, CLERC**
10.3	Toiledau – mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud cais am asesiad risg a "method statement i'r gwaith paentio i'r toiledau. Mae'r wybodaeth yma wedi ei drosglwyddo i'r Contractwr gan y Cynghorydd Daniel Williams.	**DW**
10.4	Cynllun Atal Llifogydd – Archwiliad diogelwch wedi ei gwblhau ar y prosiect , materon man wedi ei codi, fel bod y tactile paving ar y groesfan wedi ei osod yn anghywir. Mae'r gwair wedi ei dorri gan OBR yn barod ar gyfer ei roi yn ol I gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd – Y Clerc i hysbysu Geraint Huws o hyn. Mae fidio "drone" wedi ei wneud o'r cynllun ar gyfer agoriad swyddogol o'r Cynllun. Mae'r cyfweliadau hefyd wedi eu gwneud. Gobeithir bydd y lansiad yn digwydd wythnos nesa. Bydd y fidio yn gallu cael ei ddangos ar gwefan y Cyngor.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Dyma ddiweddariad ar statws defnydd y Neuadd Goffa – Cofnod y Cynghorydd Daniel Williams.	**DW**

Mae'r ofalwraig wedi dychwelyd i'w gwaith. Mae hi yn dod i arfer hefo'r gweithdrefnau newydd ac yn dychwelyd y neuadd i safon o lendid ar ôl bod ar gau am flwyddyn.

Rydym wedi cyflwyno rhestr gwirio glanhau iddi a mae hi yn cytuno hefo'i gynnwys.

Mae y clwb bowlio wedi ail ddechrau defnyddio y Neuadd. Maent wedi cyflwyno eu hasesiad risg i ni a mae yn dderbynniol. Rwyf wedi cyfarfod hefo'r trefnwyr ac wedi cael sgyrsiau ynglyn a'r trefniadau. Yn sgil y sgyrsiau hynnu fe ddiweddarwyd ein asesiad risg.

Nid yw y Guides/Brownies/Rainbows wedi defnyddio'r neuadd eto achos eu bod wedi bod yn defnyddio canolfan Felin Fach i wneud gweithgareddau awyr agored. Maent yn bwriadu defnyddio y Neuadd nos Lun nesaf 21/6/21. Mae eu hasesiad risg ganddom ni ac yn dderbyniol. Mae ein hasesiad risg a dofennau gweithdrefnau ganddynt i'w gwiro gan eu District Comissioner.

Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn cyfarfod hefo Sue Eckersley a Charlotte yn y Neuadd Nos Iau yma i ddangos y paratoadau sydd mewn lle ac i drafod syt maent am ddefnyddio a storio eu hoffer yn y neuadd.

Mae drws tân newydd wedi cael ei osod yn yr is-lawr gan Michael Hughes am y gost a amcangyfifwyd o £380-00.

Mae'r Cynghorydd Daniel Williams wedi trefnu i Michael Hughes ddod i edrych ar y gwaith sydd angen ar y llawr ger drws tan 4 - ochor Caernarfon. Mae yna sheet o plywood 18mm dros y diffyg ar y fynyd felly mae y drws tan yn iwan i'w ddefnyddio.

Mae ambell i gais i ddefnyddio'r neuadd wedi ei dderbyn. Mae'r clerc a'r Cynghorydd Daniel Williams wedi cadw at y penderfyniad a gytunwyd ato gan y Cyngor llawn yn y cyfarfod diwethaf. Rydym wedi agor i ddefnydd gan y ddau fudiad uchod mewn ffordd reoledig.

Rydym wedi dysgu o gael yr ofalwraig yn ol yn ei gwaith a byddem yn symud ymlaen rwan i fesur faint o amser mae hi yn gymeryd i ddiheintio i ni gael gweld sut fedra ni agor i fwy o fudiadau.Rydym wedi dysgu o wylio defnydd y clwb bowlio ac wedi newid ein asesiad risg a'n gweithdrefnau. Byddem yn gwneud yr un peth pan mae y Guides yn dechrau defnyddio y neuadd.

	Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried rhoi hawl I'r is-bwyllgor y Neuadd i benderfynu pa bryd I agor y neuadd ar gyfer mudiaau eraill. – Cytunodd y Cyngor I wneud hyn. Byddai pob newid yn cael ei gysidro gan yr is bwyllgor, yn cael ei gofnodi yn ein 1) Asesiad Risg, 2) Amserlen Defnydd a Glanhau a 3) Gweithdrefnau. Byd y Cynghorydd Daniel Williams yn cynhyrchu fersiwn dwyieithog o'r User Cleaning checklist. Cafwyd cyfarfod byr rhwng y Cler a'r CYnghorydd Daniel Williams nos 21 Mehefi 2021 i ddiweddaru ar faterion i wneud a'r Neuadd.	
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC/CR**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Mae CNC wedi cofrestru y wardeinniadi llifogydd y neu system. Mae rhaid o'r wardeiniad heb dderbyn cadarnhad drwy ebost o hyn. Mis nesaf bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn cysylltu â'r gwardeiniaid i gadarnhau os ydynt wedi derbyn e-bost gan CNC. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud ar y system i adrodd problemau drwy ein gwefan.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:45	
Llofnod:		**Dyddiad:**